



College of
Policing

college.police.uk

Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr

Ymunwch â'r heddlu a newidiwch fwy na thrywydd eich gyrfa

Rydych wedi dangos eich gwerth yn y byd corfforaethol, nawr trowch eich sylw
at blismona



© College of Policing Limited (2018)

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio pob llun a logo) wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Coleg Anfasnachol v1.1 ac eithrio lle y nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i www.college.police.uk/Legal/Documents/Non_Commercial_College_Licence.pdf

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd partion bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad hwn contactus@college.pnn.police.uk

Cynnwys

| | |
|---------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Ynglŷn â'r Coleg Plismona | 04 |
| Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr | 05 |
| Yr hyfforddiant | 06 |
| Ydych chi'n barod am her newydd yn eich gyrfa? | 08 |
| Gweithio i'r heddlu | 08 |
| Eich rôl fel uwch-arolygydd | 09 |
| Amdanoch chi | 10 |
| Trosolwg o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr | 13 |
| Y broses ymgeisio | 14 |
| Pa raglen sy'n addas i chi? | 16 |
| Barn uwch-arolygydd | 18 |

Ynglŷn â'r Coleg Plismona

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer plismona i bawb sy'n gweithio i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Ein diben yw helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes plismona i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn atal trosedd, amddiffyn y cyhoedd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae gennym fandad i osod safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys codau ymarfer a rheoliadau, i sicrhau cysondeb ar draws y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae gennym hefyd gylch gwaith i osod safonau ar gyfer gwasanaeth yr heddlu ar gyfer hyfforddiant, datblygiad, sgiliau a chymwysterau, ac rydym yn darparu'r cymorth mwyaf posibl i helpu gwasanaeth yr heddlu i roi'r safonau hyn ar waith.

Rydym yma i roi'r offer, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i bawb sy'n gweithio ym maes plismona er mwyn iddynt allu datblygu a llwyddo. Mae gwasanaeth yr heddlu yn wynebu cyfres o heriau - o'r newid y mae'n rhaid i heddluoedd ei wneud er mwyn arbed arian a lleihau trosedd, i gymhlethdod cynyddol y bygythiadau i ddiogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd a threfn gyhoeddus. Rydym yn helpu i gyflawni'r heriau hyn. Gan weithredu er budd y cyhoedd, rydym yn llais awdurdodol ym maes plismona, gan adolygu'n barhaus sut rydym yn cefnogi gwasanaeth yr heddlu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno pwyntiau Mynediad Uniongyrchol i wasanaeth yr heddlu ar gyfer arolygwyr ac uwch-arolygwyr.

Mae rhaglenni hyfforddi a datblygu Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr ac Uwch-arolygwyr yn newid sylfaenol a hanfodol er mwyn cyflwyno safbwyntiau, sgiliau a phrofiadau newydd i wasanaeth yr heddlu a darparu gwasanaeth sy'n broffesiynol, yn effeithlon ac yn gallu ymdrin â'r pwysau cynyddol a wynebwn heddiw ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr i recriwtio arweinwyr profiadol i'n rhaglenni Mynediad Uniongyrchol, a fydd yn gallu dod â syniadau a meddylfryd newydd i wasanaeth yr heddlu.

Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr

Mae'r materion y mae gwasanaeth yr heddlu yn eu hwynebu heddiw yn gofyn am syniadau ffres a ffyrdd newydd o weithio

Mae'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr yn cefnogi'r Weledigaeth Plismona Genedlaethol drwy helpu i annog arweinwyr eithriadol presennol i ymuno â gwasanaeth yr heddlu i gael effaith ar ddiwylliant, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar unwaith. Mae'r rhaglen yn rhoi'r cyfle i arweinwyr profiadol ymuno â gwasanaeth yr heddlu gan ddechrau ar y rheng uwch-arolygydd ar unwaith, yn hytrach na dechrau ar lefel cwnstabl a gorfod gweithio'u ffordd drwy'r rhengoedd.

Mae'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr yn addas ar gyfer unigolion sy'n meddu ar sgiliau arwain a rheoli eithriadol sy'n chwilio am yrfa heriol sy'n rhoi boddhad iddynt.

Dyluniwyd y rhaglen i ddarparu hyfforddiant cadarn a chynhwysfawr i sicrhau y byddwch, ar ôl cwblhau'r rhaglen, yn uwch-arolygydd cymwys sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar unwaith ar blismona, y gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Er bod gwaith swyddog yr heddlu yn gyffrous, yn ddwys ac yn amrywiol, nid yw'n swydd naw tan bump.

Disgwylir i chi reoli digwyddiadau difrifol a chyfeirio a chefnogi eich tîm i ymdrin â sefyllfaoedd sydd yn aml yn gymhleth a lle mae amser yn ffactor dyngedfennol. Byddwch yn atebol am eich camau i sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd foesegol, gyda gonestrwydd i'r safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

Os ydych eisiau gwneud rhywbeth gwerth chweil a rhoi rhywbeth yn ôl i'ch gymuned, yna efallai bod gyrfa fel Uwch-arolygydd drwy ein rhaglen Mynediad Uniongyrchol yn addas i chi.

Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr.

I ddysgu mwy am y ddwy raglen ac i wneud cais, ewch i [leadbeyond.police.uk](https://www.leadbeyond.police.uk)

Yr hyfforddiant

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o blismona arnoch i ymuno â'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr.

Bydd aelodau'r rhaglen yn cael hyfforddiant dros gyfnod o 18 mis ac yn meithrin y sgiliau plismona angenrheidiol i gyflawni rôl uwch-arolygydd sy'n annog hyder ymhlith swyddogion yr heddlu, staff a'r cyhoedd.

Byddwch yn cael hyfforddiant i ymateb i amrywiaeth o heriau fel datblygu strategaethau ymchwiliol a chynhyrchion cudd-wybodaeth, neu gyflwyno prosesau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Byddwch hefyd yn gweithio ar sail cylchdro ar lefel cwnstabl, rhingyll/arolygydd ac yna uwch-arolygydd cyn cwblhau'r rhaglen. Erbyn diwedd y rhaglen byddwch yn gallu mynd i'r afael â phob her, arwain eich timau gyda ffocws a gweledigaeth a gwneud penderfyniadau anodd yn hyderus, gan ddangos doethineb a hyblygrwydd.

Cewch fentor, cynllun datblygu personol wedi'i deilwra, a hyfforddiant ar arweinyddiaeth a'r cyfryngau. Yn anad dim, byddwch yn elwa ar ddysgu drwy ddull trochi sy'n adlewyrchu gweithrediadau go iawn yr heddlu. Dyluniwyd y rhaglen mewn modd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar eich sgiliau a'ch profiad ac yn rhoi'r hyn sydd ei angen arnoch i ddod yn uwch-arolygydd llwyddiannus.

Mae'r rhaglen 18 mis yn gyfuniad o ddysgu yn y dosbarth a ddarperir yn ein canolfannau hyfforddi rhanbarthol a hyfforddiant a datblygiad gweithredol yn eich heddlu lleol. Byddwch yn treulio 75 y cant o'ch hyfforddiant yn gweithio ar gylchdro gweithredol gan ddysgu drwy brofiad uniongyrchol yn union beth y mae plismona yn ei olygu.

Yr hyn y byddwch yn ei ddysgu

Mae canlyniadau dysgu'r rhaglen yn adlewyrchu'r sgiliau, y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiad y mae'n rhaid i uwch-arolygydd feddu arnynt er mwyn gweithio'n ddiogel, yn broffesiynol, yn foesebol ac yn effeithiol mewn amgylcheddau gweithredol ac anweithredol.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, byddwch yn gallu dangos:

- gwybodaeth a dealltwriaeth systematig o'r heriau eang ym maes plismona a pholisi cyhoeddus a'r safbwyntiau cystadleuol, trafodaethau a dadleuon cysyniadol ym maes plismona, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol
- gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o arweinyddiaeth strategol a theori rheoli yng nghyd-destun plismona
- ymwybyddiaeth hollbwysig o sefyllfaoedd newydd a dull esblygol, yn seiliedig ar dystiolaeth o blismona i lywio arferion proffesiynol y dyfodol ym maes plismona
- gwybodaeth gynhwysfawr am y rheoliadau, y gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i reng uwch-arolygwyr yr heddlu mewn lifrau.



Ydych chi'n barod am her newydd yn eich gyrfa?

Gweithio i'r heddlu

Mae swydd yng ngwasanaeth yr heddlu yn golygu lleihau troseddau a'r ofn sydd ynghlwm wrth droseddau a magu hyder yn eich cymunedau. Bydd cyflawni hyn yn golygu ymateb i heriau'n ddyddiol, ysgwyddo cyfrifoldeb, gweithio fel tîm ac ennyn parch eich cymuned.

Mae ymuno â'r heddlu drwy'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arylgwyr hefyd yn golygu y byddwch yn gallu mynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaeth yr heddlu yn eu hwynebu dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny:

- cynnal y broses o ddarparu gwasanaethau yn ystod cyfnod o gyni parhaus
- ymdrin â newidiadau yn y mathau o droseddau (ee, seiber, trawsffiniol, demograffeg)
- newid sefydliadol mewnol (ee, strwythur, hyd gwasanaeth, morâl isel, diwylliant)
- rheoli'r angen am gydweithredu ehangach a dyfnach (ee, partneriaid newydd, uno)
- defnydd effeithiol o dechnolegau newydd gan yr heddlu
- ymateb i graffu cynyddol, atebolrwydd a galwadau am dryloywder
- dylanwad cynyddol yr amgylchedd gwleidyddol
- cynnal hyder y cyhoedd
- yr angen i ailddiffinio llwyddiant
- cynyddu'r galw y tu hwnt i 'leihau troseddau' yn unig.

Eich rôl fel uwch-arolygydd

Uwch reolwyr sy'n gyfrifol am bennu strategaeth, safonau a pholisi gweithredol o ddydd i ddydd ar draws un adran neu amrywiaeth o gyfrifoldebau plismona yw uwch-arolygwyr.

Mae'n rhaid i uwch-arolygydd allu:

- cynnal diogelwch personol a bod yn ymwybodol o ddiogelwch pobl eraill
- rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith
- nodi pryderon a blaenoriaethau cymunedau mewn perthynas â diogelwch, cynhwysiant cymdeithasol ac atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- pennu, monitro ac adolygu strategaethau ar gyfer cynnal trefn gyhoeddus
- rheoli cyllideb sylweddol
- gwella perfformiad sefydliadol.

Yn aml, mae'n ofynnol i uwch-arolygwyr arwain eu huned eu hunain a rheoli adnoddau sylweddol yn annibynnol, gan gyflawni llwyddiant yn gyson. Byddwch hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu, ac o fewn iddynt, i gynnal y gyfraith, amddiffyn aelodau o'r cyhoedd a'u heiddo, atal troseddu a gwella ansawdd bywyd pob preswlydd.

Disgwylir i uwch-arolygwyr ymuno â chylchdro 'ar alwad', lle y bydd rhaid bod modd cysylltu â hwy, yn aml yn ystod oriau anghymdeithasol a rhaid iddynt ddangos y gallu i arwain, rheoli risgiau difrifol a gwneud penderfyniadau tyngedfennol yn ystod gweithrediadau.

Amdanoch chi

Er mai ffocws y rhaglen hon yw denu unigolion sy'n meddu ar sgiliau arwain eithriadol o'r tu allan i faes plismona, bydd angen i chi ysgwyddo cyfrifoldebau swyddog yr heddlu hefyd.

Bydd angen i chi fod yn uchelgeisiol, yn gryf, yn benderfynol ac yn realistig o ran y gofynion.

Wrth ymuno â'r maes plismona drwy'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol, bydd angen i chi feddu ar y sgiliau, y gallu a'r profiad i reoli adnoddau a chyllidebau tra'n arwain adran fawr. Fel uwch reolwr, bydd angen i chi ddangos arddull arwain ysbrydoledig ac ysgogol sy'n annog cydweithrediad a pharch oddi wrth staff ac yn arwain at y perfformiad gorau gan eraill.

Nid oes angen i chi feddu ar brofiad blaenorol na gwybodaeth o orfodi'r gyfraith, oherwydd cewch hyfforddiant gweithredol a chymorth ymarferol helaeth wrth gyflawni'r swydd. Fodd bynnag, disgwylir i chi feddu ar brofiad helaeth o reoli ar lefel uwch y gallwch ei gymhwyso i'r rôl.



- Ydych chi'n hyrwyddo ffydd wirioneddol mewn gwasanaethau cyhoeddus?
- Ydych chi'n meddu ar y sgiliau, y gallu a'r profiad i arwain ac ysbrydoli adrannau mawr?
- Ydych chi'n gyfforddus yn gosod safonau ymddygiad uchel a herio arferion eraill pan na fyddant yn cael eu bodloni?
- Ydych chi'n gallu datblygu perthnasau gwaith effeithiol gydag uwch bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol?
- Ydych chi'n gallu cymhwyso gwersi o sefydliadau eraill a phennu strategaethau a pholisiau yn unol â hynny?
- Ydych chi'n meddu ar arddull arwain sy'n ennyn y perfformiad gorau gan eich staff?
- Ydych chi'n gallu herio pam mae pethau'n cael eu gwneud 'y ffordd yma' a, lle bo angen, cyflwyno ffyrdd newydd o weithio?
- Ydych chi'n gyfforddus yn gwneud penderfyniadau risg uchel ac effeithiol, er gwaethaf amwysedd a phwysau mawr?
- Ydych chi'n hyderus yn eich sgiliau busnes ac ariannol ac yn gallu codi mwy o ymwybyddiaeth fasnachol?
- Ydych chi'n gallu arwain mentrau ar gyfer newidiadau sefydliadol sylweddol?
- Ydych chi'n meddu ar yr hunanhyder a'r gwydnwch personol i oresgyn unrhyw wrthwynebiad i newid?
- Ydych chi'n gallu gweithio'n hyblyg ac yn barod i wneud hynny?
- Ydych chi'n ymddwyn gydag uniondeb ac yn ddiuedd ym mhob sefyllfa?
- Ydych chi'n cyflog cychwynnol o £65k yn gymhellant i chi?

Os ydych chi'n credu eich bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol hyn, yna gwnewch gais i'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr. Ewch i leadbeyond.police.uk

Trosolwg o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr

Y Coleg Plismona – Cam 1

Modiwl 10 wythnos gyda chyfnod sefydlu yw Cam 1 sydd â'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro gweithredol cyntaf fel cwnstabl a chaiff ei gyd-redeg â'r rhaglen ar gyfer arolygwyr. Mae Cam 1 yn cynnwys rhaglen sefydlu 2-wythnos gyda'r heddlu, proses ardystio yn ogystal â 10 wythnos o hyfforddiant preswyl.

Cylchdro cwnstabl yr heddlu

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 12 wythnos gyda'r heddlu, gan gyflawni rôl cwnstabl o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig-ar-waith profiadol. Byddwch ar reng flaen y system cyfiawnder troseddol, gan ymdrin â phopeth o droseddau difrifol megis cam-drin plant, pobl sydd ar goll a marwolaethau sydyn, i wrthdaro ymhlith teuluoedd a thensiwn o fewn cymunedau a rhoi hyder i'r gymuned.

Y cylchdro hwn fydd y cyfle cyntaf i chi ddefnyddio eich hyfforddiant, gan droi theori yn ymarfer bob dydd.

Y Coleg Plismona – Cam 2

Modiwl 4-wythnos yw Cam 2 sydd â'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro gweithredol fel rhingyll/arolygydd ac mae'n cyflwyno'r rolau ar gyfer rhingyll ac arolygydd.

Y cylchdro rhingyll/arolygydd

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 14 wythnos gyda'r heddlu yn cyflawni rolau rhingyll ac arolygydd o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig-ar-waith profiadol. Yn ystod y cylchdro fel rhingyll, eto gyda chymorth dyddiol, byddwch yn gyfrifol am oruchwyllo swyddogion yr heddlu a thîm ehangach o gydweithwyr yr heddlu, yn gyffredinol ac yn dechnegol. Byddwch yn rheoli adnoddau, yn goruchwyllo ymchwiliadau ac yn cadw llygad fanwl ar ymatebion i ddigwyddiadau tyngedfennol. Byddwch yn cynnal sesiynau briffio, cyflwyno tasgau ac ôl-drafodaethau a gaiff eu llywio gan gudd-ymchwil, ac yn darparu arweinyddiaeth i'ch tîm.

Byddwch hefyd yn cyflawni rôl arolygydd, gan oruchwyllo cwnstabliaid a rhingylliaid. Byddwch yn cynllunio, yn trefnu ac yn cyfarwyddo tîm o swyddogion yr heddlu a staff mewn amrywiaeth o dasgau yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a phlismona. Byddwch hefyd yn rheoli gweithrediadau'r heddlu, er enghraifft, graddio risg ar gyfer dioddefwyr trais domestig a phennu'r strategaeth a chydlynu'r ymateb pan fydd digwyddiadau tyngedfennol.

Y Coleg Plismona – Cam 3

Modiwl 3-wythnos yw Cam 3 gyda'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro fel uwch-arolygydd, gan ddatblygu eu sgiliau rheoli risgiau a gwneud penderfyniadau ymhellach.

Cylchdro uwch-arolygydd

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 15 wythnos gyda'r heddlu, yn cyflawni rolau uwch-arolygydd o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig ar waith.

Y Coleg Plismona – Cam 4

Modiwl 2-wythnos yw Cam 4 sydd â'r nod o ddatblygu gwybodaeth aelodau'r rhaglen am gwynion a disgyblu, rheoli perfformiad, arweinyddiaeth, rheoli newid a gweithio mewn partneriaeth.

Arweinyddiaeth ar gyfer uwch-arolygwyr (gyda chymorth)

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 12 wythnos gyda'r heddlu, gan ddatblygu eu portffolio gwaith eu hunain ar gyfer rôl uwch-arolygydd. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff aelodau'r rhaglen eu mentora'n barhaus i gefnogi eu datblygiad.

Cwblhau rhaglen a chyfnod prawf y Coleg Plismona

Drwy gydol y 18 mis, mae aelodau'r rhaglen yn cynnal asesiad seiliedig ar waith, arholiad pwrpasol am wybodaeth uwch-arolygwyr a phrosiectau ymchwil gweithredol. Yn amodol ar gwblhau pob elfen o'r asesiad yn llwyddiannus a thrwy gytundeb y Coleg a'i brif swyddog, bydd aelodau'r rhaglen yn cwblhau'r rhaglen ac yn gadael y cyfnod prawf.

Y broses ymgeisio

Mae'r broses recriwtio ar gyfer y rhaglen yn digwydd yn flynyddol ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Cam cyntaf y broses yw cwblhau'r ffurflen gais ar-lein y gallwch ddod o hyd iddi ar wefan y rhaglen Mynediad Uniongyrchol leadbeyond.police.uk

Bydd yn ofynnol i chi ddangos y cymwyseddau perthnasol ar gyfer y rhaglen yn eich cais. Gallwch ddod o hyd i gymorth a chanllawiau ar gwblhau ffurflenni cais sy'n seiliedig ar gymwyseddau ar leadbeyond.police.uk.

Yna bydd arbenigwyr recriwtio eich heddlu yn sifftio'r holl geisiadau a gwblhawyd.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y Ganolfan Asesu Genedlaethol yn cael cynnig lle ar y rhaglen gan yr heddlu, yn amodol ar nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r swyddi sydd ar gael.

Cymhwysedd

Er mai ffocws y rhaglen hon yw denu unigolion sy'n meddu ar sgiliau arwain eithriadol o'r tu allan i faes plismona, bydd angen i chi ysgwyddo cyfrifoldebau swyddog yr heddlu hefyd.

Mae hynny'n golygu y **bydd angen i chi fodloni'r un meini prawf cymhwyster â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer unigolion eraill sy'n ymuno â gwasanaeth yr heddlu.**

Bydd y meini prawf hyn yn cynnwys gwiriadau ynghylch eich sefyllfa ariannol, unrhyw gollfarnau troseddol blaenorol, eich ffitrwydd ac aelodaeth o unrhyw grwpiau gwleidyddol.

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr feddu ar gymhwyster Lefel 6/7 ond byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr sy'n gallu dangos y lefel gyfatebol o brofiad ar gyfer rhaglen 2019.

Strwythur asesu

Yn y Ganolfan Asesu Genedlaethol, byddwch yn cael eich asesu gan nifer o aseswyr gwahanol. Mae'r holl aseswyr wedi'u hyfforddi'n briodol mewn perthynas â'r egwyddorion a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag asesu eraill mewn dull gwrthrychol a theg. Mae aseswyr hefyd yn cael hyfforddiant ar gyfer yr ymarferion penodol a ddefnyddir yn y ganolfan asesu. Mae'r timau asesu yn cynnwys cymysgedd o aseswyr gwasanaeth (o un o heddluoedd y Deyrnas Unedig) ac aseswyr allanol o'r tu allan i faes plismona.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio, y meini prawf cymhwyster a'r strwythur asesu ar leadbeyond.police.uk

Sut ydych chi'n penderfynu a ydw i'n llwyddiannus?

Ar ôl yr asesiad, caiff eich perfformiad cyffredinol ei ystyried. Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y safon angenrheidiol yn cael eu hargymell ar gyfer y rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr.

Yna, caiff ymgeiswyr a argymhellir eu paru â heddluoedd yn seiliedig ar eu dewisiadau cychwynnol, cyhyd ag y bo'n bosibl. Yna, bydd yr heddluoedd yn penderfynu pa rai o'r ymgeiswyr a argymhellir y maent yn dymuno cynnig lle iddynt. Gall heddluoedd benderfynu cynnal cyfweiliadau neu gam dethol ychwanegol cyn cynnig lleoedd i ymgeiswyr.

Pa raglen sy'n addas i chi?

| | Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr | Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr |
|----------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Hyd y rhaglen | 24 mis | 18 mis |
| Rôl | Rheolwyr canol ar y rheng flaen sy'n ymdrin â mentrau troseddu yw Arolygwyr. Mae'n rôl weithredol. Mae Arolygwyr yn aml yn gyfrifol am shifft dyletswydd sy'n cynnwys cwnstabiliaid a rhingylliaid, gan oruchwylio'r ddwy lefel, a mynychu cyfarfodydd rheoli a chydlynu gan sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. | Uwch reolwyr sy'n gyfrifol am bennu strategaeth, safonau a pholisi gweithredol o ddydd i ddydd ar draws un adran neu amrywiaeth o gyfrifoldebau plismona yw uwch-arolygwyr. |
| Cyfrifoldebau | <p>Rheoli, cynllunio, trefnu ac awdurdodi gwaith swyddogion yr heddlu a staff sifil, gan ddyrannu gwaith a rheoli perfformiad.</p> <p>Rhoi arweiniad a rheoli timau.</p> <p>Cymryd cyfrifoldeb dros reoli digwyddiadau o bwys.</p> <p>Adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion, er mwyn cyflwyno gwelliannau.</p> <p>Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.</p> | <p>Rhoi cynllun busnes strategol yr heddlu ar waith.</p> <p>Pennu pryderon a blaenoriaethau cymunedau mewn perthynas â diogelwch, cynhwysiant cymdeithasol ac atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Pennu, monitro ac adolygu strategaethau.</p> <p>Rheoli heriau ariannol.</p> <p>Gwella perfformiad sefydliadol.</p> |

| | | |
|------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Sgiliau a phrofiad angenrheidiol</p> | <p>Uniondeb personol ac ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus.</p> <p>Sgiliau arwain hyblyg.</p> <p>Gwydnwch ac agwedd gadarnhaol.</p> <p>Sgiliau ariannol a busnes mewnol.</p> <p>Datblygu partneriaethau.</p> <p>Y gallu i arwain newid sefydliadol effeithiol.</p> <p>Creadigrwydd ac arloesedd.</p> <p>Meddwl agored ac yn barod i herio diwylliant ac arferion presennol.</p> <p>Cymhwyso rheoliadau a gweithdrefnau perthnasol mewn sefyllfaoedd cymhleth, anrhagweladwy ac amrywiol.</p> | <p>Llwyddiant blaenorol o ran gwella perfformiad sefydliadol, rheoli cyllidebau ac adnoddau.</p> <p>Cyfathrebu effeithiol ac argyhoeddiadol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.</p> <p>Cynllunio, arwain a gweithredu prosiectau cymhleth sy'n gofyn am gyfathrebu trawsddisgyblaethol.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth a sgiliau rheoli adnoddau lefel uchel.</p> <p>Technegau gwerthuso critigol i lywio penderfyniadau a datblygu ffiniau gwybodaeth broffesiynol am blismona.</p> <p>Cymhwyso rheoliadau, gweithdrefnau a deddfwriaeth yn sensitif mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy ac amrywiol.</p> |
| <p>Cyflog</p> | <p>Cyflog cychwynnol o tua £49k</p> | <p>Cyflog cychwynnol o tua £65k</p> |

Barn uwch-arolygydd

Jenny Barnett, Uwch-arolygydd, Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaid



‘Buaswn i’n argymhell y rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr i bobl sy’n mwynhau cynllunio newid a chynnwys pobl eraill yn y broses honno.’

Ymunodd Jenny, sy’n 45 mlwydd oed, â’r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr yn 2014, gan raddio fel uwch-arolygydd gyda Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaid ym mis Mai 2016. Cyn dod yn swyddog yr heddlu, roedd ganddi yrfa lwyddiannus fel rheolwr yn y gwasanaeth sifil a’r sector cyhoeddus.

‘Mae fy mhrofiad ym maes Adnoddau Dynol yn y sector cyhoeddus wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn fy rôl newydd, yn yr un modd â’r profiad o reoli timau ar sawl safle ar draws ardal eang.’

Roedd gan Jenny bryderon ynghylch ymuno â’r gwasanaeth, gan fod plismona yn wahanol i’w rolau blaenorol, hynny yw **‘mae gofyniad i reoli risgiau deinamig yn y fan a’r lle. Ond dyna sy’n gwneud y swydd yn ddeniadol hefyd.’**

Darganfu Jenny mai prif fanteision ymuno â gwasanaeth yr heddlu yw ‘gweithio gyda swyddogion yr heddlu sydd wedi’u hysbrydoli i ysgogi newid gwirioneddol yn fewnol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i’r gymuned, a gweithio gydag aelodau o’r gymuned a phartneriaid sy’n ymrwymedig i wella bywydau trigolion.’

Mae Jenny’n disgrifio gweithio i’r heddlu fel profiad cyffrous, ysbrydoledig a rhwystredig ar adegau, ond mae ei chydweithwyr newydd wedi ei chroesawu’n gynnes. Mae diwrnod arferol fel uwch-arolygydd yn dechrau gyda chadeirio cyfarfod rheoli yn y bore. Dyma’r cyfle i asesu adnoddau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer y diwrnod a gwneud addasiadau lle bo angen. Yna, bydd Jenny yn gwirio ystafelloedd y ddalfa i gael darlun o’r hyn sy’n digwydd a lle y gall fod angen ei chymorth. Mae hefyd ar gael i ymdrin ag unrhyw awdurdodiadau o natur wahanol.

Bydd Jenny yn mynychu cyfarfodydd a drefnwyd yn ei bwrdeistref, yn ei hawdurdod lleol neu yng nghanol Llundain ym Mhencadlys yr Heddlu Metropolitanaid. Mae’r cyfarfodydd hyn yn cwmpasu unrhyw beth o ddiogelu lleol i brosiectau ar draws Llundain.

‘Mae swyddogion yn galw i mewn i’r swyddfa gyda cheisiadau amrywiol neu ddiweddiadau drwy gydol y dydd. Tuag at ddiwedd y dydd, ar ôl yr holl gyfarfodydd, rwy’n ceisio gwirio fy e-byst a chynllunio ar gyfer y diwrnod nesaf.’

Yn ôl Jenny yr agwedd fwyaf heriol ar ei rôl fel uwch-arolygydd yw **'herio'r status quo pan fydd pawb o'ch cwmpas wedi dod yn hen gyfarwydd ag ef.'** Fodd bynnag, mae ei dycnwch, ei hamynedd a'i gwyleidd-dra yn sicrhau ei bod yn parhau i sicrhau cynnydd a newid o fewn gwasanaeth yr heddlu.

Dywedodd Jenny, sy'n fam i dri o blant bach ac yn mwynhau rhedeg, fod y gofyniad i fod i ffwrdd o'r cartref am gyfnodau maith yn anodd ond yn bosibl gyda gofal plant a chymorth ei gŵr.

'Mae'r gwaith shifft yn para am gyfnod penodol o amser ac mae'n hanfodol i ddatblygu perthnasau a deall y rôl. Rydym yn gwybod beth yw'r shifftiau ymhell ymlaen llaw, sy'n gwneud y sefyllfa'n haws ei rheoli. Rwy'n gallu, i raddau helaeth, rheoli fy nyddiadur o ddydd i ddydd i gyd-fynd â'm bywyd teuluol.'

Mae Jenny yn teimlo bod ei gyrfa newydd yn ei gwobrwyo a byddai'n annog unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais i'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr i dreulio rhywfaint o amser gyda thimau'r heddlu a chydag uwch-arolygydd yr heddlu yn yr ardal lle maent yn dymuno gwneud cais.

Ynglŷn â'r Coleg

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer plismona ar gyfer pawb sy'n gweithio ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Ein diben yw helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes plismona i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn atal troseddu, amddiffyn y cyhoedd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

college.police.uk



Dilynwch ni
[@CollegeofPolice](https://twitter.com/CollegeofPolice) [#betterpolicing](https://twitter.com/CollegeofPolice)